# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 27AIN MEHEFIN, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 17 Mehefin 2022)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
Gareth Tudor Jones
Edgar Wyn Owen
Rheinallt Puw
Huw Rowlands

Annwen Hughes
Linda Ann Jones
Gwynfor Owen
Arwyn Herald Roberts
Elfed Williams

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Gareth Williams
Eryl Jones-Williams
John Brynmor Hughes

Angela Russell
Anwen J. Davies

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2022/2023

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is gadeirydd ar gyfer 2022 / 2023

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 6ed o Ragfyr 2021 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 7 - 25

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 22 Ebrill 22
b) 10 Mawrth 22
c) 25 Chwefror 22
d) 25 Tach 21

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**06-12-21**

**Presenoldeb:**

Cynghorwyr: Annwen Hughes (Cadeirydd), John Brynmor Hughes, Elin W Jones, Gareth Morris Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Owen, Angela Russell, Elfed Williams a Gareth Williams

**Swyddogion:**

Iwan G Evans (Pennaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Gwenan M Roberts (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Roy Owen.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 13 Medi 2021 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgorau a gynhaliwyd 5ed o Hydref 2021 a'r 1af o Dachwedd 2021

**6. RHEOLI SEFYDLIADAU RHYW – DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982**

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Amgylchedd yn amlygu'r angen i'r Awdurdod Trwyddedu sydd yn dymuno rheoleiddio sefydliadau rhyw yn ei ardal, fabwysiadu darpariaethau Atodlen 3 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009.

Penderfyniad unfrydol y Pwyllgor hwn (13 Medi 2021) oedd argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r grymoedd ac ar y 7fed o Hydref 2021 penderfynodd y Cyngor llawn i gymeradwyo mabwysiadu'r drefn rheoleiddio ar gyfer sefydliadau rhyw fel a ganlyn

- Mabwysiadu ledled y sir Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009, gan ddod yn weithredol ddim cynt na 1 Rhagfyr 2021.

- Cyfarwyddo’r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gyhoeddi’r hysbysebion statudol ynghlwm â’r penderfyniad i fabwysiadu am 2 wythnos yn olynol, gyda’r cyntaf ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad i rym.
- Dirprwyo’r materion o bennu ffioedd, gosod amodau safonol a chynllun prosesu’r ceisiadau i’r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

Yn unol â chyfarwyddyd y Cyngor llawn a gofynion cyfreithiol cadarnhawyd bod rhybudd statudol wedi ei gyhoeddi yn y wasg ynghlwm â’r penderfyniad i fabwysiadu am 2 wythnos yn olynol, gyda’r cyntaf wedi ymddangos dim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y daeth y penderfyniad i rym.

Eglurwyd bod y Cyngor yn ystyried pob cais am drwydded yn unol â’i rinweddau ei hun er mwyn sicrhau cysondeb, tegwch a thryloywder. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Gwasanaeth Trwyddedu a’r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol dros y blynyddoedd wedi mabwysiadu sawl polisi ac egwyddorion cyffredinol er pwrpas cynnig arweiniad wrth ystyried ceisiadau am drwydded. O ganlyniad, lluniwyd dogfen bolisi, er cymeradwyaeth y Pwyllgor, yn cwmpasu’r prosesau a fabwysiedir mewn perthynas â Sefydliadau Rhyw. Ategwyd bod y Polisi yn manylu ar y broses o geisio am drwydded, adnewyddu, amrywio a throsglwyddo trwyddedau sefydliad rhyw mewn perthynas ag eiddo sydd yn gweithredu oddi fewn i ddalgylch Cyngor Gwynedd.

Cyfeiriwyd at y broses trwyddedu ynghyd a’r amodau safonol a’r ffioedd i’w talu. Amlygwyd bod deddfwriaeth yn gosod hawl i godi ffi am drwyddedau sefydliadau rhyw a bod y Cyngor wedi gosod ffi sydd yn ddigonol i adennill costau yn unig. Y bwriad yw adolygu’r ffioedd trwyddedau yn flynyddol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Ymatebion i gwestiynau a godwyd yn y drafodaeth ddilynol:

Mewn ymateb i sylw bod angen ystyried lleoliad addas ar gyfer unrhyw sefydliad rhyw, gan osgoi e.e. ger ysgolion, nodwyd bod y polisi yn un grymus a chynhwysfawr oedd yn rhoi ystyriaeth i bob sefyllfa posib.

Mewn ymateb i awgrym i gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol yn y rhestr ymgynghorwyr (paragraff 4.3 o’r adroddiad (3.4 o’r polisi), ystyriwyd hyn yn rhesymol a bod modd ychwanegu’r Bwrdd Iechyd i’r rhestr os mai dyma ddymuniad y Pwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â’r ffurflen gais am drwydded, nodwyd bod y ffurflen gais yn ffurflen safonol (fel yr un ar gyfer trwydded eiddo) ac yn gyson gyda ffurflenni awdurdodau eraill.

Mewn ymateb i gwestiwn am sut roedd y ffioedd yn cymharu gyda ffioedd siroedd eraill, nodwyd bod Cyngor Dosbarth Arfon wrth fabwysiadau Atodlen 3 wedi pennu'r ffioedd uchaf posib o dan ddarpariaethau statudol y Ddeddf. Er hynny, heriwyd ffioedd y Cyngor ar y pryd ac yn unol â dyfarniad Llys gorfodwyd y Cyngor i osod ffioedd fyddai yn adennill costau yn unig. O ganlyniad, eglurwyd bod y ffioedd a argymhellir yn yr adroddiad yn adlewyrchu costau gosod cyfundrefn newydd a chostau prosesu ceisiadau yn unig gyda bwriad o adolygu’r ffioedd yn flynyddol.

Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â’r ffaith bod ffioedd Gwynedd yn ymddangos yn gymharol îs na ffioedd rhai siroedd eraill, nodwyd bod y ffioedd yn gorfod adlewyrchu'r costau ar hyn o bryd fel pwynt cychwynnol yn seiliedig ar y broses. Ategwyd y bydd modd adolygu’r ffioedd yn flynyddol os bydd angen gwneud asesiad manylach neu ychwanegu camau ychwanegol i’r broses.

Cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn ddarostyngedig i gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol ym mharagraff 3.4 o'r Polisi (rhestr ymgynghorwyr)

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo Mabwysiadu Iedled y sir y Datganiad o Bolisi Trwyddedu Sefydliadau Rhyw fydd yn gosod gweithdrefnau ac amodau er mwyn caniatáu rheoleiddio sefydliadau rhyw drwy gyfundrefn drwyddedu; yn weithredol o'r 6ed o Ragfyr 2021 yn ddarostyngedig i gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol ym mharagraff 3.4 o'r Polisi (rhestr ymgynghorwyr)**

- **Cymeradwyo gosod y ffi a nodir sydd yn adlewyrchu gweinyddu a phrosesu ceisiadau am drwydded sefydliad rhyw a chymeradwyo adolygiad blynyddol o'r ffioedd hynny.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:30

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 22-04-2022**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Edgar Owen ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

` Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ynghyd ag adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pennaeth Cyfreithiol i'r Swyddog Trwyddedu, cadarnhawyd mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflwyno adroddiad DBS i'r Awdurdod Trwyddedu. Cadarnhawyd hefyd nad oedd ystyriaeth wedi ei roi i'r tri phwynt am oryrru gan nad oeddynt yn groes i bolisi ac yn reswm i wrthod y cais.

Mewn ymateb i gwestiwn gan gynrychiolydd yr ymgeisydd i'r Swyddog Trwyddedu ynglŷn â'r cais, cadarnhawyd bod Cwmni Premier Cars yn cyflwyno nifer o geisiadau ac yn barod bob amser i gyd-weithio, yn agored ac yn ymwybodol iawn o'r drefn

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y gollfarn ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Nodwyd bod amgylchiadau'r ymgeisydd ar y pryd yn anodd, ond ers hynny wedi troi ei fywyd o gwmpas drwy ofalu am ei ferch a'i dad. Ategwyd bod y ffurflen gais wedi ei chwblhau gan Reolwr Swyddfa Premier Cabs ac nad oedd unrhyw fwriad gan yr ymgeisydd i gam arwain yr Is bwyllgor drwy beidio a chynnwys manylion am gael ei wahardd rhag gyrru am 18 mis yn 2016. Yn unol a gofynion y Polisi, amlygodd bod cyfnod o dair blynedd wedi mynd heibio ers y gwaharddiad ac nad oedd troseddau eraill i'w hystyried. Dymuniad yr ymgeisydd oedd dychwelyd i waith er mwyn cynnal ei ferch.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Is-bwyllgor yn ymwneud a chwblhau'r ffurflen gais a bod y 'bocs anghywir' wedi derbyn tic, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd mai camgymeriad gan y Rheolwr Swyddfa oedd yma ac nad oedd unrhyw fwriad i dwyllo'r is-bwyllgor. Ategwyd bod y cais wedi ei wneud mewn ewyllys da ac mai'r cwmni oedd wedi gwneud cais am y ffurflen DBS fel modd o baratoi ar gyfer y gwrandawiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pennaeth Cyfreithiol, cadarnhawyd mai'r ymgeisydd oedd wedi arwyddo'r ffurflen.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan gynrychiolydd yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn mis Tachwedd 2016 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Gwynedd o yrru o dan ddylanwad alcohol yn groes i Ddeddf Trafig Ffyrdd 1988. Derbyniodd yr ymgeisydd

waharddiad rhag gyrru am 18 mis (wedi ei leihau gan 4misos yn cwblhau cwrs), dirwy o £260, costau o £85 a chostau ychwnaegol o £30.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi’r Cyngor lle nodi’r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae 2.3 yn nodi, at ddibenion y Polisi, gall "materion eraill i'w hystyried”, gynnwys, ymhlith eraill, gollfarnau troseddol / moduro

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu’r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p’run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 11.0 sydd yn cyfarch troseddau o yfed a gyrru. Ym mharagraff 11.1 fe nodir y byddai ystyriaeth ddifrifol i gollfarnau am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol / cyffuriau. Bydd un sydd wedi ei gael yn euog o droseddau yn ymwneud ag yfed a gyrru yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o’r fath am 3 blynedd o leiaf.

Ystyriwyd paragraff 13.0 sydd yn ymwneud a mân droseddau traffig yn ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o’r Polisi gyda paragraff 13.1yn diffinio ‘man drosedd traffig fel trosedd sydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb Ystyriwyd paragraff 13.2 sydd yn amlygu gall un gollfarn am fan drosedd gyrru arwain at wrthod y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn 2016 yn ymwneud â throsedd o yfed a gyrru. Roeddynt yn fodlon bod cyfnod yr amser a nodir yn y Polisi lle dylid gwrthod ceisiadau oherwydd troseddau o’r fath wedi mynd heibio. Nododd yr Is-bwyllgor fod yr un drosedd o 2016 hefyd wedi arwain at waharddiad gyrru hyd Mehefin 2018. Gyda’r drwydded wedi ei hadfer yn Mehefin 2018 a dim tystiolaeth o droseddu pellach, roedd yr Isbwyllgor, yn unol a’r Polisi, yn fodlon bod cyfnod priodol o amser wedi mynd heibio.

Yn ogystal, canfu'r Is-bwyllgor fod digwyddiad 2020 yn ymwneud â mân drosedd traffig. Wedi cymryd i ystyriaeth paragraff 13.2 o'r Polisi, roedd yr Is-bwyllgor o’r farn na ddylai'r drosedd fod yn sail i wrthod y cais.

Ystyriwyd y camgymeriad a wnaed ar ffurflen gais yr ymgeisydd a oedd wedi methu â chynnwys collfarnau a ddatgelwyd yn yr adroddiad DBS ar y ffurlfen gais. Derbyniwyd eglurhad y cyflogwr mai camgymeriad ar ran y cwmni oedd hyn ac nad oedd hyn wedi ei wneud yn fwriadol. Atgoffwyd yr ymgeisydd, ei fod, wrth lofnodi’r ffurflen, yn cymryd cyfrifoldeb am y cynnwys ond roedd yr Is-bwyllgor yn barod i dderbyn mai camgymeriad oedd llofnodi’r ffurflen heb wirio’r cynnwys y tro hwn.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor, er nad oedd yr ymgeisydd yn esgusodi’r drosedd fod ei amgylchiadau personol ar y pryd yn anodd iawn. Roeddynt hefyd yn fodlon bod ei amgylchiadau wedi newid ers hynny ac nad oedd tystiolaeth bod yr ymddygiad yn nodweddiadol ohono.

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat. Anogwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i sicrhau bod ymgeiswyr i'r dyfodol yn gwirio a chymryd cyfrifoldeb am eu ffurflen gais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Cymerodd cynrychiolydd yr ymgeisydd y cyfle i ddiolch i'r Adran Trwyddedu am eu cefnogaeth yn ystod y pandemig - y cyfnod wedi bod un heriol iawn i bawb.

**6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

` Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ynghyd ag adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatau y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir yr arnodiadau ar ei drwydded yrru a'i amgylchiadau personol. Cyfeiriodd at y 6 phwynt a dderbyniodd o beidio â chael yswiriant car gan nodi mai darparu bwyd i unigolyn bregus ydoedd yn ystod y cyfnod clo. Roedd yn derbyn y dylai fod yn ymwybodol mai defnydd cymdeithasol oedd ganddo ar y car ac nid defnydd busnes. Nododd ei fod yn mwynhau gyrru a'i fod yn deall a derbyn gofynion y swydd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Swyddog Trwyddedu, nododd yr ymgeisydd nad oedd wedi derbyn cadarnhad am ei gyflogaeth gyda chwmni 'Huw'sTaxis', ond ei fod wedi trafod gwaith gyda chwmnïau lleol.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau.

- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Ym mis Mai 2020 derbyniodd yr ymgeisydd chwe phwynt cosb am ddefnyddio cerbyd heb yswiriant yn erbyn risgiau trydydd parti ynghyd a 3 pwynt cosb o yrru tu hwnt i derfyn cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus ym mis Medi 2020. O ganlyniad roedd wedi derbyn 9 o bwyntiau cosb ar ei drwydded yrru.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae 2.3 yn nodi, at ddibenion y Polisi, gall "materion eraill i'w hystyried", gynnwys, ymhlith eraill, gollfarnau troseddol / moduro

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.2 yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae IN10 (defnyddio cerbyd sydd heb ei yswirio yn erbyn risigiau trydydd parti). Mae paragraff 12.3 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn am 6 mis o leiaf.

Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi gyda paragraff 13.1 yn diffinio 'mân drosedd traffig' fel trosedd sydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb. Ystyriwyd paragraff 13.2 sydd yn nodi os bydd gan ymgeisydd / ddeilydd y drwydded un gollfarn am fân drosedd gyrru, neu fod mater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny, ni fydd hyn fel arfer yn arwain at wrthod cais neu atal / ddirymu trwydded.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn mis Mai 2020 yn un o drosedd traffig difrifol. Fodd bynnag, gan fod y cyfnod yr amser a nodir yn y Polisi lle dylid gwrthod ceisiadau oherwydd troseddau o'r fath wedi mynd heibio ac nad oedd y troseddau wedi amharu ar addasrwydd yr ymgeisydd fel gyrrwr tacsi, nid oedd yn sail i wrthod y cais dan baragraff 12.4. Yn ogystal, roedd digwyddiad Medi 2020 yn ymwneud â mân drosedd traffig ac wedi rhoi ystyriaeth i baragraff 13.2 o'r Polisi, canfu'r Is-bwyllgor na ddylai'r drosedd hon fod yn sail i wrthod ychwaith.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 13 :30 a daeth i ben 14 :45

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 10-03-22

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Anwen Hughes (Cadeirydd), Gareth T Jones ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gethin Glyn Williams (Aelod Lleol), Mrs W Lawrence, Susan Wattis, Helen Charlton, Jenny Wilson, Salmon Williams, Cyng. Judith Humphreys, Veronica Roberts, Wendy Cleaver, Carol Jones, Jan Clark, Norma Stockford, June Davies, Victor Perham, Tom Dobson a Marilyn Whitehouse (ymatebwyr)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Mater o drefn:

Amlygodd yr ymgeisydd bod ganddo bryderon ynglŷn â threfniadau'r gwrandawiad ac y dylai'r Is-bwyllgor ystyried y canlynol cyn parhau gyda'r gwrandawiad.

Gwrthdroi achos cyfiawnder
Cyfreithlondeb y broses
Camgymeriadau yn y rhaglen
Dehongliad o'r gyfraith

Amlygodd:

- bod rhai ymatebion yn awgrymu bod yr ymgeiswyr wedi ceisio gwyrdroi cwrs cyfiawnder drwy gysylltu â'r rhai a wrthwynebodd y cais. Roedd yr ymgeisydd yn gwrthbrofi'r honiad hwn yn gryf ac yn teimlo mai'r ymatebwyr hyn oedd yn gwyrdroi cwrs cyfiawnder trwy wneud honiadau ffug.
- bod y Cyngor wedi cynnwys / cyhoeddi'r cyhuddiadau enllibus hyn ac wrth wneud hynny yn cydoddef a chefnogi'r datganiadau. Gwnaed cais i'r Cyngor gyflwyno tystiolaeth a'u darbwyllodd fod y datganiadau hyn yn ffeithiol gywir cyn eu cyhoeddi
- Y dylid gwrthod unrhyw ymateb na ymatebwyd i lythyr diweddar gan y Cyngor yn gwirio bod y sawl oedd yn cyflwyno'r ymateb yn parhau i'r ymateb hwnnw gael ei ystyried. Dadleuwyd bod yr ymatebion hyn yn disgyn tu allan i'r gyfraith, ond yn parhau i fod yn rhan o'r raglen yr Isbwyllgor.
- Bod rhai ymatebion yn cynnwys nifer o ffeithiau a sylwadau ffug am y cwmni a heriodd y Cyngor pam nad oeddynt wedi ymchwilio i'r sylwadau ffug yma cyn cyhoeddi rhaglen. Ystyriwyd bod y sylwadau yn gamarweiniol ac yn debygol o gamarwain aelodau'r is-bwyllgor pan fyddant yn dod i benderfyniad

Yn dilyn cyngor cyfreithiol gan Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor nodwyd bod y cais gerbron wedi ei gyflwyno cyn i'r Ddeddfwriaeth gael ei mabwysiadu gan Cyngor Gwynedd. Ategwyd bod y pwerau bellach yn eu lle a bod modd parhau gyda'r gwrandawiad ac i'r is-bwyllgor ystyried y sylwadau wrth ddod i benderfyniad.

**4. CAIS AM DRWYDDED SIOP RHYW – EVA AMOUR, 6 SGWAR SANTES ANNE, ABERMAW**

**Ymgeisydd:** Mr David Powley a Mr Daniel Millar (ar ran DD Trading (NW) Ltd)

**Ymatebwyr:** Mr a Mrs D Hooper, Mr Trevor Parry, Parchedig Dawn Robinson, Cyng Rob Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Cyng Katie Price (Cyngor Tref Abermaw) a Katie Pattison

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded siop rhyw ar gyfer Eva Amour, 6, Sgwar Santes Anne, Stryd Fawr, Abermaw.

Eglurwyd bod unrhyw unigolyn sy'n dymuno rhedeg Sefydliad Rhyw yn unol â diffiniad Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 angen trwydded sefydliad rhyw, oni bai bod yr awdurdod priodol wedi hepgor y gofyn am drwydded. Gan fod darpariaethau'r Ddeddf wedi eu mabwysiadu'n llawn 7fed o Hydref 2021, ni all unrhyw fusnes o'r fath weithredu yn ardal Gwynedd heb drwydded ddilys. Er hynny, gan fod y busnes yma wedi ymgeisio am drwydded ym mis Chwefror 2021, cyn mabwysiadu'r system drwyddedu i holl ardal Gwynedd, nid oedd gan y Cyngor unrhyw bwerau i atal y busnes rhag agor heb drwydded ar y pryd a nodwyd bod y busnes wedi bod yn masnachu ers Rhagfyr 2021.

Cyfeiriwyd at y broses o reoleiddio sefydliadau rhyw a'r broses drwyddedu gan amlygu bod pum rheswm gorfodol am wrthod cais - os yw'r ymgeisydd

- Yn iau na 18 mlwydd oed
- Ar hyn o bryd wedi cael ei wahardd rhag dal trwydded sefydliad rhyw
- Ddim yn gorff corfforedig ac nad yw'n byw neu nad yw wedi byw yn y DU am y chwe mis cyn dyddiad y cais hwn
- Yn gorff corfforedig sydd ddim wedi'i ymgorffori yn y DU
- Yn y 12 mis cyn dyddiad y cais hwn wedi cael gwrthod caniatâd neu gais i adnewyddu trwydded ar gyfer yr eiddo sy'n destun y cais hwn, oni bai bod y gwrthodiad wedi cael ei wyrdroi mewn apêl

Ategwyd, nad oedd unrhyw un o'r rhesymau gorfodol hyn dros wrthod yn berthnasol yn yr achos hwn ond cyfeiriwyd at y rhesymau dewisol -

- Os yw'r ymgeisydd yn anaddas ar gyfer dal y drwydded am ei fod wedi derbyn collfarn am drosedd
- Pe bai'r busnes yn cael ei reoli neu ei weithredu er budd trydydd parti fyddai ddim yn derbyn trwydded eu hunain
- Bod nifer y sefydliadau rhyw yn yr ardal leol neu o'r math penodol hwn yn yr ardal leol gyfartal neu'n uwch na'r nifer yr ystyrir yn briodol
- Yn amhriodol o ran:

i. Cymeriad yr ardal leol berthnasol - yn fater i'r aelodau, yn seiliedig ar ffeithiau'r cais. Nodwyd nad oedd rhaid diffinio'r ardal leol berthnasol yn glir, ac fe all yr aelodau benderfynu bod yr ardal leol yn yr achos yma yn cyfeirio at yr ardal sy'n amgylchynu'r eiddo ar/neu wrth ymyl Sgwâr Santes Anne, ar y Stryd Fawr yn Abermaw yn yr achos yma.
ii. Defnydd yr eiddo yn y cyffiniau
iii. Gosodiad, cymeriad, cyflwr neu leoliad yr eiddo

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod 82 gwrthwynebiad wedi ei dderbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol ac 8 o sylwadau'n cefnogi'r cais. Ymysg y sylwadau gan drigolion, derbyniwyd gwrthwynebiadau hefyd gan ddiaconiaid Eglwys Crist, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Cyngor Cymuned ac offeiriaid lleol. Cyflwynwyd sylwadau ar y cais gan Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Adran Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach y Cyngor gan gadarnhau nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiadau i'r cais

Wedi trafodaethau gyda'r ymgeisydd, oherwydd bod 11 mis wedi mynd heibio ers cynnal yr ymgynghoriad ar y cais, penderfynwyd caniatáu i holl ymatebwyr y cais ailystyried eu sylwadau. Anfonwyd llythyr ar 28 Ionawr 2022 at bawb ymatebodd yn wreiddiol, i alluogi'r cyfle i gadarnhau, addasu neu ddileu eu sylwadau.

Derbyniwyd 22 o sylwadau, 20 yn cadarnhau eu gwrthwynebiad i'r cais, gyda 5 ohonynt yn cyflwyno sylwadau wedi'i haddasu. Roedd un ymatebwr wedi gofyn am ddileu ei wrthwynebiad, yn seiliedig ar y ffaith nad oedd yr arddangosfa ffenestr siop yn peri tramgwydd fel yr ofnid i ddechrau. Roedd un ymatebwr oedd yn cefnogi'r cais wedi gwneud sylwadau ar y broses o benderfynu ar y cais.

Argymhellwyd i'r Is-bwyllgor wrthod y cais ar y sail nad oedd yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal gyfagos a bod lleoliad arfaethedig yr eiddo yn agos i eiddo a fynychir gan blant ac oedolion bregus.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai
- Cyfle i'r Rheolwr Trwyddedu a'r ymgeisydd grynhoi eu hachos

b) Nid oedd gan yr Is-bwyllgor gwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

c) Cwestiynau gan yr ymgeisydd ac ymatebion y Rheolwr Trwyddedu

| |
|---|
| A oedd yr awgrym gan yr ymgeisydd, mewn e-bost i'r Adran Trwyddedu i ail ddechrau'r broses yn un rhesymol?<br><br>*Cadarnhawyd bod e-bost yn gofyn am ail dechrau'r broses wedi ei dderbyn, ond bod hyn wedi ei dderbyn ar ôl i'r ymgeisydd weld yr adroddiad pwyllgor a'r argymhelliad* |
| A oedd yr ymatebion wedi eu hystyried yn deg cyn eu cyhoeddi?<br><br>*Pob gofal wedi ei wneud wrth drin a'r ymatebion. Nid oes hawl gan y Rheolwr Trwyddedu i ddehongli pa sylwadau sydd yn briodol - bydd y Rheolwr Trwyddedu yn* |

| |
|---|
| *sicrhau bod yr holl sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r ymgeisydd gael cyfle i'w gweld ac ymateb iddynt ac i'r Is-bwyllgor eu hystyried wrth ddod i benderfyniad* |
| A yw'r Cyngor yn cefnogi sylwadau ffug ac yn caniatáu dirnadaeth?<br><br>*Bod gan ymatebwyr yr hawl i gyflwyno eu barn / sylwadau ac nid oes hawl rhwystro sylwadau o blaid nac yn erbyn* |
| A oedd y Cyngor ar fai yn dechrau proses ymgynghori heb fabwysiadu'r Ddeddf a'r datganiad rheoli sefydliadau rhyw?<br><br>*Derbyn y farn, ond nodwyd bod y Ddeddf yn caniatáu ceisiadau ôl-weithredol. Ategodd y Pennaeth Cyfreithiol o dan atodiad 3 o Ddeddf 1982, bod modd cyflwyno cais rhag-blaen* |
| Ydy yn deg dweud bod canran sylweddol o'r ymatebion a gyhoeddwyd yn anghywir?<br><br>*Dim ymateb* |
| Pam nad oedd crynodeb o'r sylwadau cefnogi yn yr adroddiad? Yr adroddiad yn canolbwyntio ar y gwrthwynebiadau - hyn yn annheg o ystyried bod dros 400 yn cytuno gyda'r cais<br><br>*Bod yr holl sylwadau wedi cael eu hystyried gan ganolbwyntio ar sylwadau ymatebwyr oedd yn lleol i gymuned Abermaw. Rhai sylwadau o blaid wedi eu cyflwyno o dramor. Ategwyd mai llofnod yn unig oedd ar y ddeiseb cefnogi a dim sylwadau ysgrifenedig. Natur y sylw sydd yn bwysig ac nid y nifer a dderbyniwyd* |
| Ai'r sylwadau yn dilyn yr ail ymgynghoriad a ddylid fod wedi eu cyhoeddi yn unig?<br><br>*Yr holl sylwadau yn parhau i fod yn berthnasol. Mater i'r Is-bwyllgor yw dehongli perthnasedd y sylwadau i'r cais* |
| A oedd geiriad y llythyr a anfonwyd i'r ymatebwyr gwreiddiol yn cynnig ail gyflwyno / ail ystyried eu sylwadau yn annheg?<br><br>*Anfonwyd y llythyr o dan amgylchiadau teg – cynnig i bawb ail gyflwyno eu sylwadau* |
| Sylwadau am y drws ochr – sut rhannwyd y wybodaeth yma?<br><br>*Cyfeiriad at ddrws ochr wedi ei gynnwys yn ffurflen gais yr ymgeisydd a'r ymatebwyr wedi ymateb i hyn* |
| Beth yw 'sex tourism'?<br><br>*Dim sylw* |
| Pam bod yr awgrym o gynnig cefnogaeth, cwnsela a gwybodaeth am iechyd rhywiol wedi ei gamddehongli?<br><br>*Cyfeiriad yn ffurflen gais yr ymgeisydd yn mynegi hyn. Yn dilyn ymateb gan yr ymgeisydd yn nodi mai eu dyhead oedd cynnig hyn 'We aim' ac 'We plan', derbyniwyd cadarnhad am ystyr y sylw* |
| Pam bod sylwadau am bwysau ychwanegol ar y swyddfa bost yn cael eu hystyried yn |

| |
|---|
| negyddol?<br><br>*Dim sylw ychwanegol - sylwadau gan ymatebwyr sydd yma* |
| Beth yw ‘significant degree’?<br><br>*Dehongli’r ymadrodd yn rhan o drafodaeth ehangach ac nid i’w ystyried wrth drafod y cais.* |

Ategodd y Rheolwr bod trafodaethau rheolaidd wedi eu cynnal gyda’r ymgeisydd, gan geisio rhoi arweiniad.

ch) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd:

- Bod llawer o gefnogaeth i’r fenter newydd gyda rhai oedd yn gwrthwynebu bellach wedi newid eu meddwl
- Bod y siop o fewn ardal breswyl ei natur ond bod pawb bellach yn gefnogol a nifer fawr wedi arwyddo deiseb yn cefnogi’r fenter
- Bod perthynas dda gyda’r dafarn leol - yn cydgordio digwyddiadau
- Bod perthynas dda gyda siopau eraill yn yr ardal
- Bod cyfeiriad yn y polisi tuag at ‘fannau agored’ yn cyfeirio at barciau
- Wedi trafodaeth gyda’r Eglwys – nid yw eu gwrthwynebiad yn sefyll bellach nawr mae’r siop yn agored a’r hyn sydd yn amlwg
- Bod nifer yn pryderu am yr hyn ‘nad yw’n hysbys’ - y siop wedi ei gyflwyno yn chwaethus
- Bod siopau eraill tebyg wedi eu sefydlu ger Eglwysi a bellach yn cyd-fyw heb unrhyw bryderon
- Nid oes unrhyw gynnyrch yn cael ei arddangos yn ffenest y siop
- Bod holl siopau Ann Summers ar draws y wlad yn gweithredu heb drwydded ac wedi eu lleoli mewn ardaloedd prysur
- Bod diogelwch y gymuned yn bwysig – bwriadu cadw at reolau a gweithredu yn gyfreithiol
- Bod gwybodaeth a gafodd ei gamddehongli / gamddeall bellach wedi diflannu
- Bod mwyafrif o’r cwsmeriaid yn lleol
- Nid oes digwyddiadau / dathliadau ‘Stag and Hens’ yn digwydd yn Abermaw
- Y bwriad yw cael siop gyda thrwydded

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a rheoli’r fenter heriol yma yn gyfrifol a safonol heb ddwyn anfri ar y dref, nododd yr ymgeisydd ei fwriad o gyflwyno’r siop mewn modd chwaethus. Ategodd bod adborth calonogol wedi ei dderbyn ynglŷn a chyflwyniad y siop a’i fod yn ychwanegu gwerth i’r stryd fawr. Ategodd bod rhai yn teithio’n benodol i ymweld a’r siop ac yn aros yn y dref gan gyfrannu at yr economi leol. Nid ydynt yn canolbwyntio ar gynnyrch rhad.

d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

Mrs Hooper

- Yn cadw at ei sylwadau gwreiddiol o fod yn gwrthwynebu’r cais
- Pryder am leoliad y siop - gerllaw'r Eglwys, Meithrinfa a lle mae teuluoedd yn siopa
- Y siop yn anaddas ar gyfer tref gwyliau i deuluoedd
- Y siop o fewn ardal sydd yn hygyrch i bobl fregus

Cyng. Katie Price

- Bod y Cyngor wedi derbyn nifer fawr o wrthwynebiadau – llawer mwy na'r hyn sy'n arferol
- Cyngor Tref yn gwrthwynebu yn benodol oherwydd lleoliad y siop sydd gyda chroesfan cerdded o'i blaen; bod addoldy prysur gyferbyn a'r siop sydd yn cynnal gwasanaethau, priodasau, angladdau a chyfarfodydd ieuenctid

Cyng Rob Triggs

- Ategu sylwadau Cyng Katie Price
- Dim sylwadau personol ond gwrthwynebiad wedi ei gyflwyno yn unol â sylwadau'r trigolion lleol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phleidlais y Cyngor Tref ar y cais, nodwyd bod y bleidlais i wrthod wedi bod yn unfrydol ac nad oedd yr un llythyr o gefnogaeth wedi ei dderbyn

Mr D Hooper

- Yn cadarnhau ei wrthwynebiad gyda phwyslais ar anaddasrwydd y lleoliad

Parchedig Dawn Robinson

- Cadarnhau bod ei gwrthwynebiadau yn sefyll - siarad ar ran yr Eglwys
- Anghytuno gyda lleoliad y siop

Katie Pattison

- Yn rhiant lleol ac yn gefnogol i'r cais
- Yn rhannu'r un fynedfa i'w chartref a'r siop
- Dim rhesymau moesol dros wrthwynebu'r cais
- Bod mwy o adnoddau all achosi tramgwydd yn y Siop Roc!
- Nid yw ei phlant wedi gwneud sylw wrth gerdded heibio'r siop i'r ysgol
- Wedi dod i adnabod yr ymgeiswyr yn dda
- Ni ddylid cuddio'r siop
- Ei bod wedi anfon e-bost yn cadarnhau ei chefnogaeth

dd) Yn manteisio ar y cyfle i gloi'r achos, nododd y Rheolwr Trwyddedu'r pwyntiau canlynol

- Y cais wedi ennyn llawer o sylw yn y gymuned leol
- Y gymuned leol wedi amlygu teimladau cryfion a rhain wedi eu rhannu
- Tynnwyd sylw at y ofynion y ddeddf ynghyd a'r polisi
- Lleoliad y siop yw'r sail dros yr argymhelliad i wrthod – nid yw yn leoliad addas i gymeriad yr ardal gyfagos

e) Yn manteisio ar y cyfle i gloi'r achos, nododd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol gan ymateb hefyd i'r pryderon a amlygwyd gan yr ymatebwyr:

- Bod cael trwydded ar y siop wedi bod yn rhan o'r cynllun ers y dechrau
- Llawer o ddiddordeb yn y siop wedi ennyn cefnogaeth
- Ers agor, y siop efallai wedi derbyn mwy o gefnogaeth
- Eu bod yn rhan o'r gymuned - yn cyflogi pobl leol
- Eu bod yn byw yn yr eiddo
- Gellid sicrhau diogelwch i'r gymuned
- Trwydded yn ddilys am 12 mis – hwn yn gyfle da

Ymneilltuodd yr ymgeisydd, yr ymatebwyr a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd,

sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu yn argymell gwrthod y cais ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad.

Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn egwyddorion Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 sydd yn cynnwys cynllun trwyddedu i reoli sefydliadau rhyw (Siopau rhyw a sinemâu rhyw). Mabwysiadwyd Cyngor Gwynedd y Ddeddf ynghyd a Datganiad o Bolisi Trwyddedu Sefydliadau Rhyw mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 7fed o Hydref 2021

**PENDERFYNWYD: GWRTHOD Y CAIS AR Y SAIL NAD YW'N CYD-FYND Â CHYMERIAD YR ARDAL GYFAGOS A BOD LLEOLIAD ARFAETHEDIG YR EIDDO YN AGOS I EIDDO A FYNYCHIR GAN BLANT AC OEDOLION BREGUS.**

Rhesymau:

Roedd yr Is Bwyllgor yn fodlon nad oedd y seiliau ar gyfer gwrthod cais yn Atodiad 3 paragraff 12(1) o'r Deddf yn perthnasu i'r cais. Gan hynny ystyriwyd y cais dan ddarpariaethau dewisol Atodiad 3 paragraff*3) o'r Deddf.

Ystyriwyd y rhesymau dewisol:

a) Fod yr ymgeisydd yn anaddas i ddal y drwydded am ei fod wedi derbyn collfarn am drwydded neu am unrhyw reswm arall
b) Petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu, adnewyddu neu drosglwyddo byddai'r busnes oedd yn berthnasol iddo yn cael ei reoli neu ei weithredu er budd person, ac eithrio'r ymgeisydd, fyddai ddim yn derbyn trwydded pe bai'n ymgeisio am un ei hun.
c) Y byddai y nifer o sefydliadau rhyw neu sefydliadau rhyw o fath benodol yn yr cyffiniau perthnasol ar adeg y cais yn gyfartal neu'n uwch na'r nifer yr ystyrir yn briodol i'r cyffiniau gan yr awdurdod.
d) Y byddai caniatáu neu adnewyddu'r drwydded yn amhriodol gan ddal sylw at -
    i. Cymeriad yr ardal leol berthnasol;
    ii. Y defnydd a wneir o unrhyw eiddo yn y cyffiniau; neu
    iii. Gosodiad, cymeriad, cyflwr neu leoliad yr eiddo, cerbyd, llestr neu storfa ynglŷn â'r sawl yn gwneud y cais.

Derbyniwyd nifer helaeth o sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd yn gwrthwynebu'r cais gan gyfeirio at sawl agwedd a honiadau ynglŷn a'r bwriad. Yn ogystal derbyniwyd sylwadau oedd yn cefnogi'r cais a chyflwynwyd gwybodaeth bellach o gefnogaeth gan yr ymgeiswyr. Fodd bynnag, dim ond y wybodaeth oedd yn berthnasol i'w benderfyniad dan Atodiad 3 o'r Deddf am drwydded ar gyfer Sefydliad Rhyw sef Siop Rhyw fel y diffinnir yn y Ddeddf oedd gan yr Is Bwyllgor yr hawl i'w ystyried.

Fel rhan o'u cyflwyniad fe godwyd pwynt o drefn gan yr ymgeiswyr ynglŷn a'r treiglad amser ers yr ymgynghoriad gwreiddiol a statws yr ymatebion a dderbyniwyd. Roedd hyn yn benodol oherwydd fod yr ymgynghoriad gwreiddiol dros 12 mis oed a bod yr ymarfer diweddaru gan yr Adran Amgylchedd ac ymdriniaeth y canlyniadau yn anghywir ac annheg. Roedd yr Is Bwyllgor yn fodlon fod paragraff 29 o Atodiad 3 y Ddeddf yn darparu ar gyfer sefyllfa ble cyflwynwyd cais cyn i Gyngor fabwysiadu y gyfundrefn rheoli Sefydliadau Rhyw dan y Deddf. Roedd y ddarpariaeth yn paragraff 28 yn caniatáu gosod cais gwarchodol er cynnal gweithgaredd. Roedd yn ofyn hefyd dan paragraff 10 o'r Atodiad fod rhybudd cyhoeddus yn gwahodd sylwadau o fewn 28 diwrnod yn cael ei arddangos ar y safle ar dyddiad cyflwyno y cais. Roedd felly yn anorfod drwy ddewis cyflwyno cais rhag blaen fod yr ymgeiswyr yn cychwyn y broses o

geisio sylwadau.

Codwyd pwynt o drefn bellach ynglŷn â'r llythyr anfonwyd gan Yr Adran Amgylchedd yn Ionawr 2022 yn ceisio diweddariad gan yr ymatebwyr. Nodwyd er bod 92 o ymatebion wedi eu derbyn yn wreiddiol ni chafwyd ond ateb pellach gan 22. Nodwyd pryderon yr ymgeiswyr am y treiglad amser rhwng y cais gwreiddiol a'r gwrandawiad hefyd. Nodwyd bod gofyn i'r Is Bwyllgor ddod i farn ar sail y dystiolaeth berthnasol a gyflwynwyd ac nid yw nifer y gwrthwynebiadau yn eu hunain yn berthnasol i'r penderfyniad. Roedd yr Is Bwyllgor yn fodlon o glywed y cyflwyniadau ac ystyried y wybodaeth oedd gerbron ei bod mewn sefyllfa i ddod i benderfyniad ar y cais am y rhesymau canlynol:

Diystyrwyd sylwadau ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r ystyriaethau. Roedd sawl gwrthwynebiad yn honni fod risg o weithgareddau ehangach yn cymryd lle o fewn yr adeilad ac y byddai yn gyrchfan i 'dwristiaeth rhyw'. Cais trwydded ar gyfer sefydliad rhyw, (siop rhyw) oedd dan sylw ac ni fyddai y drwydded yn caniatáu gweithgareddau eraill. Roedd yr Is Bwyllgor yn fodlon nad oedd hyn yn sail i ganfod y byddai yr ymgeiswyr yn anaddas i dderbyn trwydded.

Penderfynwyd y byddai canatau trwydded yn amhriodol o ran:

i. Cymeriad yr ardal leol berthnasol;
ii. y defnydd a wneir o unrhyw eiddo yn y cyffiniau; neu
iii. Gosodiad, cymeriad, cyflwr neu leoliad yr eiddo, cerbyd, llestr neu storfa ynglŷn â'r sawl yn gwneud y cais.

Disgrifiwyd yr ardal leol o amgylch y safle fel pwynt canolog yn y brif stryd siopa yn Abermaw. Roedd y lleoliad ar bwys Sgwâr St Anne oedd yn leoliad canolog pwysig yng nghanol y dref, o fewn ardal siopa brysur gyda Sgwâr St Anne yn leoliad lle roedd ymgasglu a man cymdeithasu i bobl a theuluoedd gyda darpariaethau eistedd allanol yn ardal yr eiddo. Eisteddai yn uniongyrchol gyferbyn a man croesi prysur, safle marchnad a siop elusennol ynghyd a bod yn uniongyrchol gyferbyn a Eglwys Crist (Christ Church) sydd yn addoldy agored ac yn gyrchfan ar gyfer grwpiau ieuenctid yn ogystal a gwasanaethau crefyddol (yn cynnwys priodasau ac angladdau rheolaidd). Nodwyd fod y cais yn gofyn am hawl i agor ar y Sul. Nodwyd bod y Polisi Trwyddedu yn amlygu fod agosatrwydd at addoldai yn ystyriaeth penodol wrth ddyfarnu ar gais.

Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn fod yr adeilad yn amlwg yn y lleoliad ac yn wahanol o ran edrychiad i siopau ac eiddo cyfagos oedd yn golygu fod natur y sefydliad yn amlwg yn y stryd.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol. Ategwyd bod yr ymgeisydd yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 16:30

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 25-02-2022**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniadau yn cael ei gwneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

` Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatau y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y gollfarn a'i amgylchiadau personol. Nododd mai un digwyddiad oedd yma ac nad oedd yn adlewyrchu ei gymeriad. Roedd ei amgylchiadau ar y pryd yn anodd, ond ers hynny wedi troi ei fywyd o gwmpas gan fynychu coleg, cael gwaith a bellach yn ceisio cynnal ei deulu.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn mis Ionawr 2013 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ieuenctid Conwy o glwyfo/achosi niwed corfforol difrifol yn groes i Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1861. Derbyniodd yr ymgeisydd ddirwy o £100, costau o £15 a Gorchymyn Cyfeirio 12mis.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn 2013 yn ymwneud â throsedd o drais pan roedd yr ymgeisydd yn 17 oed. Roeddynt yn fodlon bod cyfnod yr amser a nodir yn y Polisi lle dylid gwrthod ceisiadau oherwydd troseddau o'r fath wedi mynd heibio.

Derbyniodd yr is-bwyllgor, er nad oedd yr ymgeisydd yn esgusodi'r drosedd fod ei amgylchiadau personol ar y pryd yn anodd iawn. Roeddynt hefyd yn fodlon bod ei amgylchiadau wedi newid ers hynny ac nid oedd tystiolaeth bod yr ymddygiad yn nodweddiadol ohono. Nodwyd eu bod yn falch bod yr ymgeisydd wedi derbyn cyfrifoldeb am y digwyddiad yn llawn ar y pryd, ac yn derbyn ei fod yn cydnabod difrifoldeb y trosedd a'i fod wedi bod yn agored ac yn onest wrth drafod y cais.

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :00 a daeth i ben am 10 :25

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 25-02-2022

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniadau yn cael ei gwneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

`

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatau y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y gollfarn a'i amgylchiadau personol. Nododd mai un digwyddiad oedd yma ac nad oedd yn adlewyrchu ei gymeriad. Roedd ei amgylchiadau ar y pryd yn anodd, ond ers hynny wedi troi ei fywyd o gwmpas gan fynychu coleg, cael gwaith a bellach yn ceisio cynnal ei deulu.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn mis Ionawr 2013 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ieuenctid Conwy o glwyfo/achosi niwed corfforol difrifol yn groes i Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1861. Derbyniodd yr ymgeisydd ddirwy o £100, costau o £15 a Gorchymyn Cyfeirio 12mis.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn 2013 yn ymwneud â throsedd o drais pan roedd yr ymgeisydd yn 17 oed. Roeddynt yn fodlon bod cyfnod yr amser a nodir yn y Polisi lle dylid gwrthod ceisiadau oherwydd troseddau o'r fath wedi mynd heibio.

Derbyniodd yr is-bwyllgor, er nad oedd yr ymgeisydd yn esgusodi'r drosedd fod ei amgylchiadau personol ar y pryd yn anodd iawn. Roeddynt hefyd yn fodlon bod ei amgylchiadau wedi newid ers hynny ac nid oedd tystiolaeth bod yr ymddygiad yn nodweddiadol ohono. Nodwyd eu bod yn falch bod yr ymgeisydd wedi derbyn cyfrifoldeb am y digwyddiad yn llawn ar y pryd, ac yn derbyn ei fod yn cydnabod difrifoldeb y trosedd a'i fod wedi bod yn agored ac yn onest wrth drafod y cais.

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :00 a daeth i ben am 10 :25